**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Mark Drakeford AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
**Gwenda Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Hydref 2013

Annwyl Weinidogion,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-15**

Diolch am fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar 17 Hydref 2013 i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15. Roedd ein gwaith craffu yn canolbwyntio ar faterion a oedd yn effeithio ar bortffolio'r Pwyllgor, ac mae'r prif gasgliadau wedi'u hamlinellu yn y llythyr hwn. Byddant yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan hefyd. Hefyd, caiff y llythyr hwn ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid er mwyn ei helpu i graffu'n gyffredinol ar y gyllideb ddrafft.

Rydym wedi ceisio dosbarthu'r prif faterion yn ôl y pedair egwyddor sy'n sail i waith craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses y gyllideb.

**Dyraniad refeniw ychwanegol i'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £180 miliwn ar gyfer 2014-15 a'r £240 miliwn ar gyfer 2015-16 i gefnogi'r GIG yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y cyllid ychwanegol hwn i ymateb yn ddigonol i'r materion a drafodwyd yn Adroddiad Adolygiad Francis yn ddiweddar.

Esboniwyd gennych y byddai'r cyllid ychwanegol ar gyfer blynyddoedd 2014-15 a 2015-16 yn cael ei ddyrannu yn ôl cyfran y boblogaeth, ac y byddai elfen o fethodoleg Townsend yn y fformiwla o ran yr elfennau sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb.[1] Rydym yn croesawu'r modd y cafodd yr arian ei ddyrannu

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cofnod drafft o'r trafodion* 17 Hydref 2013

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

i'r Byrddau Iechyd Lleol, yn enwedig y ffaith eich bod wedi ceisio datrys y broblem o ddyrannu cyllid i'r Byrddau Iechyd Lleol hynny a wnaeth leiaf i fyw o fewn eu modd.[2] Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael mwy o fanylion am yr hyn y credwch chi sy'n llwyddiant neu fethiant yn hyn o beth wrth wneud penderfyniadau dyrannu. Hefyd, mae'r Pwyllgor am gael mwy o sicrwydd bod digon o sylw'n cael ei roi yn ystod y broses ddyrannu i effaith demograffeg – yn enwedig proffil oedran – ar anghenion iechyd unrhyw ardal Bwrdd Iechyd Lleol benodol.

**Dyrannu cyllid i'r Byrddau Iechyd Lleol yn gyffredinol**

*(Egwyddor: proses y gyllideb)*

Yr oedd y Pwyllgor eisoes wedi nodi bod ganddo bryderon am agweddau o'r model presennol o ariannu Byrddau Iechyd Lleol. Rydym yn croesawu eich adolygiad o'r dyraniad adnoddau i'r Byrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys datblygu fformiwla a all:

- gael ei chymhwyso ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol, ac a all hefyd gefnogi'r Byrddau Iechyd Lleol i ddyrannu mwy o adnoddau yn lleol;
- sicrhau bod ffactorau perthnasol fel demograffeg ac anghydraddoldebau yn cael eu hadlewyrchu yn y pwysoliad o anghenion.

O ystyried pwysigrwydd yr adolygiad hwn bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb byw yn ei ddatblygiad. Hoffem gael mwy o fanylion, pan fyddant ar gael, ynghylch sut y caiff system ariannu arfaethedig ei rhoi ar waith. Byddwn yn monitro'r broses o ddyrannu cyllid i'r Byrddau Iechyd Lleol, a byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r modd y mae'r cyllid yn llifo yn y GIG yng Nghymru, fel rhan o'n rhaglen barhaus o graffu ariannol. I'r perwyl hwn, byddwn yn croesawu brîff technegol gennych chi a'ch swyddogion ynghylch datblygu'r fformiwla arfaethedig.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod *Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)* wedi cael ei gyflwyno. Bydd yn hollbwysig bod cynlluniau gwasanaeth y Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu gwerthuso a'u monitro yn ystod y cylch o dair blynedd er mwyn medru cynllunio'n realistig ac yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hir. Cawsom ein sicrhau eich bod yn bwriadu cryfhau'r gweithdrefnau monitro ar gyfer cyllid Byrddau Iechyd Lleol o dan y Bil newydd, ac rydym yn croesawu eich bwriad i gynnwys y Pwyllgor yn y gwaith hwn.

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cofnod drafft o'r trafodion* 17 Hydref 2013

**Gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft**

*(Egwyddor: proses y gyllideb)*

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud i eglurder y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac i'r modd y caiff ei chyflwyno. Serch hynny, rydym yn parhau o'r farn fod angen mwy o wybodaeth ym mhapurau'r gyllideb er mwyn medru craffu ar y dyraniadau yn drylwyr.

Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gennych eich bod yn awyddus i ddarparu mwy o wybodaeth y flwyddyn nesaf i helpu'r Pwyllgor gyda'i waith craffu. Hefyd, byddem yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth ariannol fwy hygyrch, cyson a chymaradwy. Mae'r un argymhelliad yn gymwys i'r Byrddau Iechyd Lleol o ran yr adroddiadau a'u cynlluniau ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, oherwydd nid oes cysondeb, i bob golwg, yn y modd y caiff y rheini eu llunio. Argymhellwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth i Fyrddau Iechyd Lleol yn hyn o beth fel y gall pob un ohonynt lunio adroddiad ar yr un sail er mwyn cael mwy o dryloywder yn yr wybodaeth ariannol sydd ar gael yn gyhoeddus.

**Cyfalaf**

*(Egwyddor: fforddiadwyedd)*

Yn ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid y llynedd gofynnwyd am wybodaeth i ddangos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ad-drefnu'r gwasanaeth gan gadw o fewn y dyraniadau cyfalaf. Eleni, lleddfwyd ein pryderon gan eich hyder fod y rhaglen gyfalaf yn cael ei chysoni â'r cynlluniau i ad-drefnu'r gwasanaeth ledled Cymru. Rhaid i'r cysylltiad cynhenid rhwng y cynlluniau i ad-drefnu'r gwasanaeth a'r dyraniadau cyfalaf barhau'n rhan o gynlluniau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol a'r Llywodraeth. Byddwn yn parhau i fonitro hyn fel rhan o'n rhaglen o graffu ariannol.

O ddarllen dogfen naratif Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb ddrafft, nodwn fod dulliau arloesol o godi cyllid cyfalaf yn cael eu henwi mewn portffolios eraill. Rydym yn croesawu'r cadarnhad a gawsom gennych eich bod yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid i ganfod dulliau amgen posibl o godi cyfalaf yn eich portffolio, ac rydym yn cydnabod mor bwysig yw datblygiadau o'r fath yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Byddem yn falch o gael mwy o

fanylion am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Hefyd, byddai'n dda cael eglurder ynghylch pa bryd y cred y Llywodraeth y gall fod angen gwneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn cael mwy o gyfle i fabwysiadu dulliau arloesol o godi cyfalaf o fewn y portffolio.

### Cysoni â'r Rhaglen Lywodraethu

*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Yn ystod proses y gyllideb ddrafft y llynedd, aethom ati i danlinellu ein pryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau ei Rhaglen Lywodraethu o fewn y dyraniadau a bennwyd ar gyfer 2013-14. Yn benodol, gofynnwyd am fwy o wybodaeth gennym am:

- y costau sy'n gysylltiedig â'r archwiliadau iechyd arfaethedig i bobl dros 50 oed - a'r canlyniadau a ragwelir;
- y modd y byddai'r gwariant presennol yn cael ei ailalinio er mwyn estyn oriau agor meddygfeydd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o eglurder am y canlyniadau a ragwelir yn achos y gwiriadau iechyd arfaethedig ar gyfer pobl dros 50 oed. Byddai hefyd yn croesawu asesiad o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r bwriad i ehangu'r cynllun i leoliadau cymunedol yn y dyfodol.

Fe wnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor y bydd y cyllid ar gyfer cynyddu mynediad i wasanaethau meddygon teulu y tu allan i'r oriau contract yn dod o'r adnoddau presennol. Byddai hynny'n cael ei wneud drwy adolygu ac ailalinio'r arian sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar wasanaethau ychwanegol. Byddai'r Pwyllgor yn falch o gael mwy o eglurder ynghylch pa wasanaethau ychwanegol a fydd yn colli buddsoddiad er mwyn ariannu'r polisi hwn. Bydd y Pwyllgor hefyd am weld sut yr asesir effaith unrhyw arian sydd wedi'i ailalinio.

### Deddfwriaeth

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Wrth graffu ar y *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* yng Nghyfnod 1 ystyriwyd y darpariaethau ariannol a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Bil. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd y Bil yn niwtral o ran cost yn y tymor hir, er y byddai rhywfaint o gyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i dalu am y costau

gweithredu cychwynnol. Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn £3 miliwn, yn ogystal â'r gyllideb hyfforddi ar gyfer staff gwasanaethau cymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, gan gynnwys tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cwestiynu a fyddai'r Bil yn niwtral o ran cost. Hefyd, roedd peth pryder ynghylch a yw'r dyraniadau'n ddigonol ar gyfer gweithredu'r Bil. Rydym yn croesawu adolygiad y Dirprwy Weinidog o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng Nghyfnod 2, ond mae gennym bryder o hyd y gallai fod angen cyllid ychwanegol i wireddu nodau ac amcanion y Bil yn llawn. Nodwn y byddai rhagor o wybodaeth ariannol fanwl ar gael yn gynt yn y broses ddeddfwriaethol yn helpu'r Pwyllgor i graffu.

Mae'r Pwyllgor yn parhau'n ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth yn cael eu rhagamcanu'n ddigonol, a bod cynlluniau wrth gefn i dalu unrhyw gostau ychwanegol na chafodd eu rhagweld. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod cronfa wrth gefn gyffredinol o £25 miliwn ar gael ar gyfer 2014-15. Byddwn yn monitro sut y caiff hyn ei ddefnyddio ledled y flwyddyn fel rhan o'n rhaglen o graffu ariannol.

### Gwariant ataliol

*(Egwyddor: blaenoriaethu/gwerth am arian)*

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am wariant ataliol o fewn y portffolio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod atal yn rhan o sawl elfen o'r gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i brofi rhaglenni i sicrhau eu bod yn cyflawni'u hamcanion, a'u bod yn werth yr arian. Roeddem yn falch o glywed am eich agwedd gadarnhaol tuag at ail-gyfeirio cyllid lle dengys y dystiolaeth bod modd ei ddefnyddio'n well mewn man arall. Gwelwyd eich dull o weithredu ar waith yn achos adolygiad diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru o'i raglenni gwella iechyd yng Nghymru. Arweiniodd yr adolygiad at newid y flaenoriaeth o blaid ariannu rhaglenni gordewdra ymhlith plant. Croesawn yr arfer sydd ar gynnydd o asesu rhaglenni presennol, a'r parodrwydd i newid y flaenoriaeth ariannu o blaid gwasanaethau neu raglenni a all ddangos tystiolaeth eu bod yn rhoi gwell gwerth am arian. Argymhellwn fod penderfyniadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi, ynghyd â'r dystiolaeth a arweiniodd atynt.

Yn ogystal â'r themâu uchod, cododd y meysydd pwysig canlynol wrth inni graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15:

- **Risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag ariannu gofal iechyd parhaus yn y GIG.**

  Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG*[3], daethpwyd i'r casgliad ei bod yn bosibl na chaiff yr ôl-hawliadau am gostau a godwyd yn anghywir ar unigolion rhwng 1996 a 2003 eu clirio erbyn mis Mehefin 2014. Serch hynny, yr ydym yn nodi eich hyder i'r gwrthwyneb. Byddem yn falch o gael yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd a wneir yn y maes hwn, oherwydd gallai unrhyw hawliadau annisgwyl effeithio ar y dyraniadau.

- **Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)**

  Nodwn ichi ddatgan fod proses genedlaethol IPFR yn cael ei hystyried. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael esboniad am oblygiadau ariannol polisi o'r fath, a rhagor o wybodaeth am ganlyniadau posibl hynny ar gyfer dyraniadau'r Byrddau Iechyd Lleol.

- **Y ddarpariaeth ar gyfer gofal cymdeithasol**

  Yn ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid y llynedd, yr oeddem yn croesawu'r ffaith fod Gweinidogion yn ystyried ei bod yn bwysig i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gydweithredu. Felly, rydym yn croesawu'r dyraniad o £50 miliwn i greu'r Gronfa Gofal Canolraddol. Nodwn fod yr arian hwn ym Mhrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Phrif Grŵp Gwariant Tai ac Adfywio. Rydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i roi nodyn pellach i'r Cyngor ynghylch y modd y gwneir y penderfyniadau dyrannu sy'n ymwneud â'r Gronfa. Hefyd, rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Weinidog i ymgynghori ynghylch trefniadau'r dyfodol ar gyfer yr uchafswm o £50 yr wythnos o daliadau gofal cartref.

- **Y dyraniad a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl**

  Cafodd y cyfyngiadau sy'n ymwneud â monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r dyraniad a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses y gyllideb ddrafft y llynedd. Serch hynny, sicrhawyd y Pwyllgor fod y gwariant yn y blynyddoedd blaenorol yn uwch na'r swm a glustnodwyd. Nodwn y bydd y dyraniad a glustnodwyd yn parhau tan o leiaf 2015, pryd y bydd adolygiad ohono'n cael ei wneud. Mae'r Pwyllgor yn debygol o gynnal


---

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, *Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG*, Mehefin 2013 [fel ar 24 Hydref 2013]

ymchwiliad i faes iechyd meddwl yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn, ac fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw mae'n bosibl yr ystyrir pa mor effeithiol yw'r dyraniad a glustnodwyd.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Byddai'r Pwyllgor yn falch o gael rhagor o esboniad, lle nodwyd bod angen hynny, cyn gynted ag y bo modd. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid er mwyn cynorthwyo ei waith craffu cyffredinol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**David Rees AC**
Cadeirydd

Wedi'i gopïo i Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.